**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**17eg TACHWEDD 2008**

**MESUR ARFAETHEDIG YNGHYLCH LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)**

**Adroddiad gan Shân Morris**
**Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Hysbysu aelodau o Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru), a chyflwyno ymateb drafft gan yr Awdurdod mewn ymateb i gwestiynau ymgynghori Pwyllgor y Cynulliad.

**Cefndir**

**2** Mae gofynion statudol i wella gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn eu lle am nifer o flynyddoedd. Mae'r mesur arfaethedig newydd yma'n dilyn nifer o ddarnau presennol o ddeddfwriaeth a strategaethau, sef:

**2.1** Deddf Llywodraeth Leol 1999 a gyflwynodd y cysyniad o "Awdurdodau Gwerth Gorau" – gan gynnwys ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub – a'r ddyletswydd gyffredinol i sicrhau gwelliannau parhaus ac ystyriaeth at gyfuniad o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi.

**2.2** Deddf Llywodraeth Leol 2000 a gyflwynodd y gofyniad i brif Awdurdodau Lleol baratoi strategaeth gymunedol i hyrwyddo lles yn eu hardal.

## Cefndir (parhad)

**2.3** Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 oedd yn cyflwyno gofyniad i awdurdodau lleol a'r heddlu weithio mewn partneriaeth i wella diogelwch y cyhoedd. Daeth Awdurdodau Tân ac Achub yn bartneriaid statudol yn 2003 yn unol â gofynion Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.

**3** Yng Nghymru, roedd y rhaglen Creu'r Cysylltiadau ac adroddiad Adolygiad Beecham yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gydlafurio i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**4** Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 a gyflwynodd ddiwygiadau i systemau llywodraeth leol. Roedd hefyd yn ymestyn cymhwysedd deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy roi 'pwerau fframwaith' iddo i wneud darpariaethau ar amrediad o faterion llywodraeth leol yng Nghymru.

## Cyflwyniad

**5** Cyflwynwyd Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) ar 22ain Medi 2008. Mae copi o'r mesur a memorandwm eglurhaol ynghlwm fel Atodiad 1.

**6** Sefydlwyd pwyllgor Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried ac adrodd ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac mae nawr yn edrych am dystiolaeth i gynorthwyo ei waith craffu o'r cynigion erbyn 28ain Tachwedd.

## Gwybodaeth

**7** Dangosir cyfeiriadau at adrannau perthnasol o'r Mesur arfaethedig mewn cromfachau (s._).

## Rhan 1 – Gwella Llywodraeth Leol

**8** Cyrff fyddai'n amodol ar y Mesur – gan gynnwys awdurdodau tân ac achub – fyddai'n cael eu dynodi'n 'awdurdod gwella Cymreig' yn hytrach na 'awdurdodau gwerth gorau' (s.1).

## Y Ddyletswydd Gyffredinol

**9** Byddai'r mesur yn cymryd lle'r ddyletswydd gyffredinol o dan y drefn gwerth gorau, lle byddai'r awdurdodau gwerth gorau yn gorfod

sicrhau gwelliant wrth ymarfer ei swyddogaethau yn nhermau o leiaf un o’r saith agwedd o welliant, sef:

a) effeithiolrwydd strategol
b) ansawdd gwasanaethau
c) argaeledd gwasanaethau
d) tegwch
e) cynaladwyedd
f) effeithlonrwydd
g) arloesi.

**10** Mae’r agwedd gyntaf o welliant yn cyfeirio at nodau strategol i awdurdodau tân ac achub fyddai’n unrhyw nodau strategol cymunedol perthnasol ac unrhyw nodau mae’r awdurdod wedi penderfynu gosod i’w hunan mewn ymateb i ganllawiau yn y Fframwaith Cenedlaethol. (s.4(3)(c)).

## Ymgynghoriad

**11** Disgwylir i Awdurdodau Gwella Cymreig ymgynghori gydag amrediad o ddefnyddwyr preswyl a defnyddwyr o’r tu allan a rhanddeiliaid wrth benderfynu ar eu nodau gwella (s.5). Byddai hyn yn ofyniad ar wahân o’r ymgynghoriad 12 wythnos mae’r awdurdodau tân ac achub yn ymgymryd eisoes wrth ddatblygu eu Cynlluniau Lleihau Risg.

## Cydlafurio a Phwerau Dirprwyo

**12** Byddai’r awdurdodau gwella Cymreig yn derbyn pwerau cydlafurio gydag ‘unrhyw berson’ i’r diben o sicrhau gwelliant (s.9). Byddai’r awdurdodau tân ac achub yn derbyn yr un pwerau o ddirprwyaeth (s.10) â’r awdurdodau gwella Cymreig eraill er mwyn gweithredu eu pwerau cydlafurio (s.11).

**13** Byddai disgwyl i awdurdodau gwella Cymreig ystyried pa un ai os gallant ddefnyddio eu pwerau cydlafurio i’w helpu i gyflawni eu dyletswyddau gwella o bryd i’w gilydd, ac os felly, gweithredu i wneud hynny.

## Defnyddio gwybodaeth am berfformiad

**14** Byddai Gweinidogion Cymru yn gosod dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad lle byddai disgwyl i’r awdurdodau gwella Cymreig eu cwrdd (s.8.). Byddai disgwyl i awdurdodau gwella Cymreig gasglu gwybodaeth perfformiad a’i ddefnyddio i gymharu eu

perfformiad eu hunain gyda pherfformiad blaenorol a gydag awdurdodau cyhoeddus eraill (s.13-14).

**Atebolrwydd**

**15** Byddai adrodd cyhoeddus yn digwydd mewn dau ran. Yn gyntaf, byddai angen cyhoeddi disgrifiad o gynlluniau awdurdod gwella Cymreig i wella ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ail, byddai disgwyl i awdurdodau gwella Cymru (s.15.) gyhoeddi Cynllun Gwella blynyddol erbyn 31ain Hydref.

**Rheoleiddwyr**

**16** Mae'r Mesur yn diffinio swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nhermau archwiliadau ac asesiadau gwella (s.17-28) a hefyd yn adnabod 'rheoleiddwyr perthnasol' (s.16), gyda thri ohonynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol i'r awdurdodau tân ac achub, sef:

i) person apwyntiwyd o dan adran 28 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (archwilwyr);

ii) Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth ymarfer ei swyddogaethau o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (archwiliadau); a

iii) archwilydd apwyntiwyd o dan adran 13 o Maes Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio cyfrifon awdurdod gwella Cymreig.

**17** Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu ac yn adrodd yn ôl ar lefel gwelliant mewn perfformiad a chydymffurfiad pob awdurdod gwella Cymreig, a'r debygoliaeth y gallai gydymffurfio gyda Rhan 1 o'r Mesur yn y dyfodol (s.18-20). Efallai byddai angen i reoleiddwyr eraill gyfrannu at yr asesiad hwn (s.19).

**18** Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cydgysylltu gweithgaredd rheoleiddio yn yr awdurdodau gwella Cymreig (s.24), ac yn cynhyrchu amserlen archwilio i bob awdurdod (unai yn flynyddol neu am fwy nag un flwyddyn). Mae egwyddorion cysondeb rhwng awdurdodau, annibyniaeth archwilwyr apwyntiedig, mae cyfranoldeb a chefnogaeth yn cael eu nodi hefyd (s.26).

**19** Byddai pob awdurdod gwella Cymreig yn amodol ar adroddiad gwella blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (s.25) sy'n crynhoi neu'n ailgynhyrchu adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno am welliant, cydymffurfiad ac argymhellion yr awdurdod.

**Arolygiadau arbennig**

**20** Gallai Gweinidogion Cymreig roi cyfarwyddyd i'r Archwilydd Cyffredinol Cymru wneud archwiliad. Os fyddai un ai'r Archwilydd Cyffredinol Cymreig neu reoleiddwyr eraill yn ystyried fod awdurdod gwella Cymreig yn methu cydymffurfio gyda Rhan 1 o'r Mesur, gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru benderfynu gwneud archwiliad arbennig (s.22).

**Ymyrraeth**

**21** Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi barn os ddylai'r Gweinidogion Cymreig ddarparu cymorth (2.29) neu gyfarwyddyd (s.30), ac os felly, pa fath o gyfarwyddyd.

**22** Mewn achosion o gefnogaeth, byddai gan y Gweinidogion Cymreig y pwerau 'i wneud unrhyw beth y maent o'r farn ei fod yn debyg o gynorthwyo awdurdod gwella Cymreig i gydymffurfio â gofynion y rhan hon'. Rhoir enghreifftiau o'r math o gefnogaeth a ellir ei ddarparu (s.29).

**23** Mewn achosion brys neu ddifrifol, lle nad oedd cefnogaeth wedi cael yr effaith ddymunol, neu lle nad oedd y awdurdodai gwella Cymreig wedi cydweithredu, byddai gan y Gweinidogion Cymreig bŵer cyfarwyddyd. Mae'r mathau o gyfarwyddyd wedi eu rhestru (s.30).

**24** Yn ogystal â chael y pwerau i gyfarwyddo'r awdurdodau gwella Cymreig sy'n methu ar hyn o bryd, byddai gan y Gweinidogion Cymreig y pwerau (s.31) i gyfarwyddo awdurdodau gwella Cymreig nad oedd yn y categorïau hynny i gydlafurio gyda'r awdurdodau gwella Cymreig a oedd yn y categorïau hynny.

**25** Byddai gan Weinidogion Cymreig y pwerau i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd i bob, neu rai o'r awdurdodau gwella Cymreig (s.32-33).

**Ffioedd**

**26** Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhagnodi ffioedd archwiliadau, asesiadau, archwiliadau arbennig, wedi ymgynghori gyda Gweinidogion Cymreig a chynrychiolwyr yr awdurdodau effeithiwyd yn gyntaf (s.28). Gallai'r ffioedd newid lle byddai gwaith yn sylweddol wahanol i'r hyn ragwelwyd.

## Rhan 2 o'r Mesur – Strategaethau Cymunedol a Chynllunio Cymunedol

**27** Byddai rhan yma o'r Mesur yn gofyn i awdurdodau lleol, gychwyn, cynnal, hwyluso a chymryd rhan mewn cynllunio cymunedol ar gyfer ei ardal. Byddai'n rhaid i bob partner cynllunio cymunedol gymryd rhan a chynorthwyo (s.37-39). Byddai awdurdodau tân ac achub yn dod yn bartneriaid cynllunio cymunedol ochr yn ochr gyda chynghorau cymunedol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau'r heddlu a phrif gwnstabliaid.

### Monitro ac Adolygu

**28** Byddai angen adolygu Strategaethau Cymunedol o leiaf bob pedair blynedd (s.40) - mae'r Mesur yn amlinellu'r broses ar gyfer eu monitro (s.42) a'u hadolygu (s.41). Byddai Partneriaethau Cynllunio Cymunedol yn ymarfer eu dyletswyddau mewn cysylltiad â materion sy'n gysylltiedig â'r materion sy'n gysylltiedig gyda'u swyddogaethau eu hunain.

### Atebolrwydd

**29** Byddai angen i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad o'r cynnydd mewn perthynas â Strategaethau Cymunedol bob dwy flynedd o leiaf (s.42), gyda phob Partneriaeth Cynllunio Cymunedol yn cyfrannu gwybodaeth berthnasol i'r adroddiad.

### Ymgynghoriad

**30** Mewn cysylltiad â chynhyrchiad, cyflwyniad ac adolygiad o'r Strategaethau Cymunedol, byddai'r Mesur yn gofyn i awdurdodau lleol a Phartneriaethau Cynllunio Cymunedol ddarparu cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n breswylwyr, neu ddefnyddwyr gwasanaeth o'r tu allan, cynrychiolwyr o sefydliadau gwirfoddol (gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol wedi eu cofrestru), cynrychiolwyr busnesau a rhanddeiliaid eraill yn lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal i fynegi eu barnau (s.44).

### Rôl y Gweinidogion Cymreig

**31** Byddai'r Mesur yn gofyn i'r Gweinidogion Cymreig hyrwyddo ac annog cynllunio cymunedol cyhyd â'i bod yn rhesymol ymarferol i wneud hynny (s.46), ac i gyhoeddi canllaw (s.45).

**Rhan 3 o'r Mesur – Cyffredinol**

**32** Mae'r rhan yma'n cysylltu gyda'r atodlenni, ac yn berthnasol i gyhoeddi canllaw, cyfarwyddiadau, gorchmynion a rheoliadau'r Gweinidogion Cymreig; diwygiadau cyfreithiol dilynol, darpariaeth trawsnewid ac arbed, diddymiadau a dechreuad.

**Argymhellion**

**33** Fod Aelodau yn cytuno i ymateb i'r ymgynghoriad ar Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) cyn 28ain Tachwedd 2008.

**34** Fod Aelodau yn cymeradwyo neu newid yr ymateb drafft i gwestiynau'r ymgynghoriad (Atodiad 2).